Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar wasanaethau addysg yng Nghyngor Dinas Casnewydd

**Canolfan Ddinesig**
**Heol Godfrey**
**Casnewydd**
**NP20 4UR**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Dinas Casnewydd

Mae 27,647 o ddisgyblion ar draws 56 ysgol yng Nghasnewydd. Mae 45 o ysgolion cynradd, naw ysgol uwchradd, a dwy ysgol arbennig. O'r ysgolion hyn, mae pump yn ddarparwyr cyfrwng Cymraeg.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r awdurdod lleol ym mis Tachwedd 2018.

Yn 2024-2025, cyllideb addysg yr awdurdod lleol yw £198,736,000. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yn 2024-2025 yw £5,522, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef £5,726.

Dros gyfartaledd o dair blynedd, mae 22.2% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yng Nghasnewydd wedi'i nodi isod:

- Mae 32.4% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed o leiafrifoedd ethnig.
- Mae gan 2.4% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Gweithredu gan yr Ysgol).
- Mae gan 3.0% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy).
- Mae gan 2.7% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (â Datganiad).
- Mae gan 3.1% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Cynllun Datblygu Unigol).
- Mae 16.0% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (A, B, neu C).
- Mae 3.1% o ddisgyblion sy'n 5 oed neu'n hŷn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhugl yn y Gymraeg.
- Mae cyfanswm o 375 o blant yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.*

* Sylwer: ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae'r data wedi cael ei dalgrynnu i'r 5 agosaf am resymau datgelu. Dangosir data ar 31 Mawrth ar gyfer y flwyddyn 2023

## Crynodeb

Mae gan uwch arweinwyr yng Nghasnewydd ddyheadau uchel ar gyfer plant a phobl ifanc yn y ddinas. Rhoddir blaenoriaeth ganolog i addysg yn y cynllun corfforaethol. Mae’r cyllid cynyddol fesul disgybl ar gyfer ysgolion yn y blynyddoedd diwethaf yn dangos ymrwymiad i addysg gan aelodau etholedig ac uwch swyddogion, sy’n rhoi ystyriaeth ofalus i heriau poblogaeth sy’n tyfu.

Mae’r prif swyddog addysg yn arwain y gwasanaeth addysg yn ddiwyd ac yn fedrus, gan arddangos ymddygiadau proffesiynol. Mae hi wedi dangos perthnasoedd gwaith cryf gydag arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau addysg eraill ac yn dangos gofal ystyriol am eu lles. O ganlyniad i berthnasoedd ymddiriedus, prosesau cefnogol a rhannu gwybodaeth yn effeithiol, mae swyddogion yn adnabod eu hysgolion a’u lleoliadau addysg eraill yn dda.

Mae’r prif weithredwr a’r tîm arweinyddiaeth gorfforaethol ehangach yn gweithio’n dda i gefnogi’r prif swyddog addysg a’i thîm. Maent yn darparu her addas o ran cyflwyno gwasanaethau addysg a’r effaith a gânt ar blant a phobl ifanc. At ei gilydd, mae’r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd da yn mynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad diwethaf. Mae arweinwyr o fewn y gwasanaeth addysg yn fyfyriol ac yn defnyddio’r systemau a’r prosesau yn y gwasanaeth i werthuso’u gwaith yn briodol. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw eu gwerthusiadau yn ddigon manwl gywir wrth ystyried yr effaith a gaiff gwasanaethau ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr a’u gwerth am arian.

Rydym wedi cynnal 35 arolygiad o ysgolion a lleoliadau yng Nghasnewydd ers pandemig COVID-19. O’r rhain, gofynnwyd i saith darparwr ddarparu astudiaethau achos arfer effeithiol ar ôl eu harolygiad, ac ar un darparwr yn unig yr oedd angen unrhyw weithgarwch dilynol. Nid oes unrhyw ysgol na lleoliad mewn categori gweithgarwch dilynol ar hyn o bryd, er bod dwy ysgol uwchradd a oedd mewn categori statudol yn y gorffennol wedi cymryd amser hir i wella. Mae’r darlun cadarnhaol hwn o ddeilliannau arolygu ysgolion yn adlewyrchu’r cryfderau yn ansawdd yr addysgu a’r arweinyddiaeth yn y rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau.

Mae arweinwyr y gwasanaeth addysg wedi defnyddio ymagwedd glir, strategol a phwyllog at wella’r gefnogaeth a’r her i ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar. Maent yn cydweithio’n effeithiol â’r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) a gomisiynir yn rhanbarthol i nodi a rhannu arfer effeithiol mewn ysgolion a mynd i’r afael â meysydd i’w gwella. Mae’r gwasanaeth addysg a’r GCA yn darparu dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer staff ar bob lefel mewn ysgolion a lleoliadau.

Mae’r awdurdod lleol wedi gweithredu ei gyfrifoldebau yn effeithiol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, gan gynnig cefnogaeth gref i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), eu teuluoedd, a darparwyr addysgol. Mae partneriaethau cydweithredol â rhanddeiliaid allweddol a Chydlynwyr ADY wedi bod yn allweddol o ran rhannu arferion gorau a mynd i’r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol o ran ADY. Trwy ymagwedd strategol a chefnogol, mae uwch arweinwyr wedi sefydlu tîm ADY a chynhwysiant medrus sy’n ymatebol, gan ddarparu cymorth teilwredig ar gyfer staff mewn ysgolion a lleoliadau eraill i ddiwallu anghenion dysgwyr penodol. Nodwedd arbennig o gryf yng ngwaith yr

awdurdod lleol yw'r ffordd y mae'n hwyluso staff hynod fedrus mewn ysgol arbennig i feithrin gallu staff mewn ysgolion prif ffrwd i ddiwallu anghenion disgyblion awtistig yn well. Mae'r awdurdod yn sicrhau bod safbwyntiau dysgwyr yn hanfodol i gynllunio darpariaeth ADY, ac mae ei ymgysylltiad rhagweithiol â rhieni wedi lleihau achosion tribiwnlys.

Mae ysgolion Casnewydd yn gwasanaethu poblogaeth amrywiol. Mae dros draean o'r disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, ac nid yw chwarter ohonynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Mae ein harolygwyr wedi amlygu bod ychydig o ysgolion yn arbennig o effeithiol o ran diwallu anghenion disgyblion ethnig lleiafrifol a'r rhai sy'n siaradwyr Saesneg newydd. Mae Gwasanaeth rhanbarthol Addysg Amlieithog Gwent (GEMS), a gynhelir gan Gasnewydd, yn darparu cymorth dwyieithog gwerthfawr i ysgolion, gan addasu dros gyfnod i ddiwallu anghenion sy'n newid. Mae GEMS yn monitro cynnydd disgyblion mewn Saesneg yn fanwl, ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd yn ôl y disgwyl.

Fel rhan o'i ymrwymiad i wrth-hiliaeth, mae'r gwasanaeth addysg wedi sicrhau ymrwymiad pob pennaeth i ymgorffori camau gweithredu i fynd i'r afael â hiliaeth yn ei gynllun datblygu ysgol eleni. Yn ystod pob tymor y llynedd, adroddodd lleiafrif o ysgolion na chafwyd unrhyw achosion o fwlio yn eu hysgol, ac adroddodd ychydig o ysgolion na fu unrhyw achosion o fwlio drwy'r flwyddyn. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen gwella dealltwriaeth arweinwyr ysgolion ymhellach, gan gofnodi ac adrodd am achosion o fwlio ac achosion hiliol.

Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, a fynegir yn glir yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gwneud cynnydd cryf. Mae swyddogion yn ymgysylltu'n dda â theuluoedd i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cynorthwyo rhieni'n effeithiol i wneud penderfyniadau gwybodus am ba ysgol i ymgeisio i'w plentyn ei mynychu. Ar draws pob darparwr addysg, mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo ethos a diwylliant Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn ddigon da.

Mae'r gwasanaeth addysg yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf sy'n cefnogi lles dysgwyr yn ei ysgolion, ei UCD a darparwyr eraill. Trwy ystod o arweiniad, polisïau a gweithdrefnau buddiol, ynghyd â hyfforddiant perthnasol a chyfoes mewn diogelu ac amddiffyn plant, mae swyddogion yn cefnogi ysgolion a darparwyr addysg eraill i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu'n dda.

Mae'r awdurdod lleol yn rheoli cyllidebau addysg yn dda, ac yn mynd i'r afael â phwysau ariannol yn ystod y flwyddyn yn briodol. Mae swyddogion yn rhoi cyngor ac arweiniad da i arweinwyr ysgolion am eu cyllidebau. Maent yn eu herio'n gadarn os oes ganddynt ddiffyg, neu'n rhagweld diffyg, ac yn darparu cymorth arbenigol i'w helpu.

## Argymhellion

A1 Miniogi prosesau gwerthuso a chynllunio gwelliant i ystyried effaith gwasanaethau â mwy o fanwl gywirdeb, yn cynnwys gwerth am arian

A2 Cryfhau gwaith i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau o fewn tri mis o gyhoeddi'r adroddiad arolygu.

## Prif ganfyddiadau

**Gwasanaethau addysg a'u heffaith**

**Pa mor effeithiol yw prosesau i wella addysgu ac arweinyddiaeth mewn ysgolion a lleoliadau?**

Mae arweinwyr y gwasanaeth addysg wedi sefydlu a chynnal perthnasoedd gwaith cryf gydag arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar. Maent wedi defnyddio ymagwedd glir, strategol a phwyllog at wella'r gefnogaeth a'r her i'w hysgolion. Mae swyddogion yn gweithio'n rhagweithiol gyda phenaethiaid, gan ddatblygu lefelau uchel o barch ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr rhwng yr awdurdod lleol a'i ysgolion. Mae penaethiaid yn teimlo bod arweinwyr a swyddogion yn eu cefnogi'n dda, gan ddarparu cefnogaeth a her gymesur gyda ffocws hynod gryf ar eu lles nhw, a lles eu staff.

Mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth gref o'r rhan fwyaf o agweddau ar waith ysgolion a lleoliadau. Gwna swyddogion ddefnydd addas o ystod o dystiolaeth, gan gynnwys, er enghraifft, data'n ymwneud â phresenoldeb ysgol a gwaharddiadau ysgol, gwybodaeth am adnoddau dynol ac anghenion dysgu ychwanegol, a thystiolaeth uniongyrchol wedi'i chasglu gan ysgolion a lleoliadau. Mae hyn yn eu helpu i ddeall y cryfderau ac unrhyw bryderon, ac yn golygu, fel arfer, bod ysgolion a lleoliadau'n cael y gefnogaeth a'r her sydd eu hangen arnynt.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio dulliau buddiol sy'n galluogi swyddogion i ystyried yr holl agweddau allweddol ar waith ysgolion ar y cyd, a nodi'r angen am ymyrraeth, a chynllunio cymorth ar ei chyfer. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys prosesau targedig Tîm o Amgylch yr Ysgol, trafodaethau proffesiynol sy'n cynnwys y prif swyddog addysg, y pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr, a chyfarfodydd grŵp ehangach. Mae perthnasoedd cryf swyddogion ag arweinwyr ysgolion yn golygu bod ysgolion fel arfer yn ymgysylltu'n bwrpasol â'r prosesau hyn. Er enghraifft, mae ychydig o ysgolion wedi gofyn am gael bod yn rhan o broses Tîm o Amgylch yr Ysgol i helpu

cyflymu eu gwelliannau, ac mae ysgolion hynod effeithiol yn yr awdurdod yn ceisio her ychwanegol i helpu cynnal safonau uchel.

Ers i arolygiadau ailddechrau ym mis Chwefror 2022, rydym wedi arolygu 22 ysgol gynradd, dwy ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig. Gofynnom i bum ysgol gynradd ddarparu astudiaethau achos arfer dda. Gosodwyd un ysgol gynradd yn y categori adolygu gan Estyn. Er nad oes unrhyw ysgolion mewn categori lefel gweithgarwch dilynol statudol ar hyn o bryd, dros gyfnod, nid yw'r awdurdod wedi cael effaith gyson bob amser ar sicrhau gwelliannau amserol mewn ysgolion uwchradd sydd wedi achosi pryder iddo. Ni fu angen gweithgarwch dilynol ar unrhyw un o'r deg lleoliad blynyddoedd cynnar yr ydym wedi'u harolygu er mis Chwefror 2022, a gofynnwyd i ddau leoliad ddarparu astudiaethau achos arfer dda.

Mae gan y gwasanaeth addysg berthynas adeiladol â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) a gomisiynir yn rhanbarthol. Mae'r ddau wasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol er lles pennaf ysgolion. Mae'r prif swyddog addysg yn gweithio'n rhagweithiol gydag uwch arweinwyr yn y GCA i ystyried ble gallai ysgolion elwa ar ymyrraeth gan yr awdurdod lleol. Mae'n gofyn am dystiolaeth glir gan swyddogion i gefnogi gwneud penderfyniadau ac yn ymateb yn feddylgar a phwyllog. Caiff yr ymagwedd at wella ysgolion ei deall yn dda gan swyddogion yn yr awdurdod lleol a'r GCA, fel ei gilydd. Mae swyddogion yn y ddau wasanaeth yn rhannu gwybodaeth yn dda, ac o ganlyniad, caiff ysgolion y gallai fod angen cymorth a her ychwanegol arnynt eu nodi'n gyflym. Er bod camau cyflym yn cael eu cymryd pan fydd ysgol yn dechrau achosi pryder, nid yw'r awdurdod bob amser yn monitro effaith y gweithgarwch yn ddigon craff.

At ei gilydd, mae Partneriaid Gwella Ysgolion (PGY) y GCA yn darparu cefnogaeth a her fuddiol i ysgolion. Mae'r arweiniad clir a ddarperir i Bartneriaid Gwella Ysgolion wedi helpu sicrhau bod ansawdd y gefnogaeth a'r her i ysgolion wedi gwella'n dda dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Mae systemau i Bartneriaid Gwella Ysgolion werthuso effaith eu gwaith, ac unrhyw gymorth ychwanegol a gaiff ysgolion, yn fuddiol ac yn cynorthwyo'r awdurdod lleol i ennill dealltwriaeth dda o'i ysgolion. Mae hyn yn cynnwys deilliannau o weithgarwch hunanwerthuso a gefnogir gyda Phartneriaid Gwella Ysgolion, a swyddogion yr awdurdod lleol yn gweithio ochr yn ochr ag arweinwyr ysgolion i werthuso agweddau pwysig ar eu gwaith, pan fo'n berthnasol. Mae swyddogion o'r awdurdod lleol yn darparu her addas i'r GCA, er enghraifft i sicrhau bod ysgolion yn cael lefel gyson o gymorth gan Bartneriaid Gwella Ysgolion. Mae swyddogion wedi gweithio'n agos gydag arweinwyr yn y GCA i wella ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan y GCA am ysgolion yng Nghasnewydd. Mae'r Prif PGY a swyddog arweiniol gwella ysgolion yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos i fonitro'r cymorth a ddarperir gan Bartneriaid Gwella Ysgolion, sydd wedi helpu gwella effeithiolrwydd eu gwaith.

Yn gyffredinol, mae'r GCA yn darparu ystod eang o wybodaeth fuddiol i'r awdurdod lleol am ei ysgolion. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau thematig ar flaenoriaethau penodol a nodwyd gan yr awdurdod lleol, fel cymorth ar gyfer disgyblion dan anfantais. Mae'r adroddiadau hyn wedi cael eu mireinio yn ddiweddar i leihau baich gwaith arweinwyr ysgolion a rhoi dadansoddiad cliriach o gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae adroddiadau am gynnydd mewn ysgolion yn gwneud defnydd addas o ddeilliannau arolygiadau, data a thystiolaeth uniongyrchol a gasglwyd gan Bartneriaid Gwella Ysgolion, ac yn rhoi trosolwg buddiol, ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw

swyddogion bob amser yn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ganddynt am ysgolion i lywio'u meddwl a'u cynllunio strategol yn ddigon manwl gywir. Er enghraifft, nid yw blaenoriaethau gwella bob amser yn ddigon craff i nodi'r union agweddau sydd angen eu gwella.

Gall staff ysgolion fanteisio ar ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol ac mae'r awdurdod wedi sicrhau bod y rhain yn cael eu teilwra i anghenion ysgolion unigol, lle bo'n berthnasol. Er enghraifft, trwy'r GCA, cynigir ystod ddefnyddiol o gyfleoedd dysgu proffesiynol i staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion a staff mewn lleoliadau nas cynhelir sy'n hyrwyddo ymagweddau yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n cefnogi disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae prosesau buddiol ar waith i nodi a rhannu arfer effeithiol, ac mae hyn wedi helpu creu ymdeimlad cryf o arweinyddiaeth gydweithredol ar draws ysgolion yng Nghasnewydd. Er enghraifft, mae'r awdurdod wedi nodi a rhannu ymagweddau effeithiol at amddiffyn ysgolion yn erbyn materion seiberddiogelwch. Wrth ymateb i adborth gan arweinwyr ysgolion, mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu eu rhaglen 'Newydd i Brifathrawiaeth yng Nghasnewydd' ('New to Headship in Newport'). Mae'r rhaglen hon yn cynnwys penaethiaid presennol a phrofiadol Casnewydd yn darparu mentora targedig ar gyfer penaethiaid newydd. Mae'r rhaglen yn darparu dysgu proffesiynol ychwanegol defnyddiol ar gyfer arweinwyr ysgolion i wella'u medrau arwain a deall a gwneud y defnydd gorau o brosesau o fewn yr awdurdod lleol.

Mae'r awdurdod lleol a'r GCA yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cymorth gwerthfawr ar gyfer llywodraethwyr, yn cynnwys dysgu proffesiynol targedig ar gyfer cyrff llywodraethol unigol i ddiwallu anghenion penodol. Pan fydd angen, mae'r awdurdod hefyd wedi ymyrryd i gryfhau cyrff llywodraethol, er enghraifft trwy ychwanegu aelodau ychwanegol â setiau medrau penodol.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018?**

Mae gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yr awdurdod lleol wedi ymateb yn llwyddiannus i weithredu ei ddyletswyddau statudol i ymateb i egwyddorion Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae uwch arweinwyr yr awdurdod lleol wedi defnyddio dull strategol, trefnus a chefnogol trwy gydol camau gweddnewid a gweithredu diwygio ADY. Maent wedi datblygu ystod eang o wasanaethau buddiol i gefnogi plant a phobl ifanc, eu teuluoedd a darparwyr addysg.

Mae swyddogion yn y timau ADY a chynhwysiant yn hynod fedrus a gwybodus. Maent yn darparu cymorth gwerthfawr a systematig i leoliadau, ysgolion a'r UCD. Mae hon yn nodwedd nodedig o waith yr awdurdod lleol o ran gweithredu diwygio ADY. Mae arweinwyr timau yn deall eu meysydd cyfrifoldeb yn dda. Maent yn rhannu angerdd ac ymrwymiad i hyrwyddo arfer gynhwysol a gwella'r ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer disgyblion ag ADY.

Mae gan swyddogion berthnasoedd gwaith effeithiol a strategol gydag ystod o bartneriaid allweddol. Trwy gydweithio, maent yn goruchwylio datblygiad a gweithredu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Mae arweinwyr yn sefydlu grwpiau strategol i gefnogi gweithredu diwygio ADY, fel Fforwm Partneriaeth Cynhwysiant a grŵp fformiwla cyllido ADY. Ceir fforymau Cydlynwyr ADY (CydADY) a chyfarfodydd clwstwr sefydledig. Defnyddir y rhain yn effeithiol i fynd i'r afael â

blaenoriaethau ADY cenedlaethol a lleol i rannu arfer lwyddiannus ac adolygu a mireinio systemau a phrosesau.

Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn hanfodol i gynllunio a darparu cymorth. Mae arfer yn canolbwyntio ar yr unigolyn wedi hen ennill ei phlwyf mewn ysgolion a lleoliadau, ac mae swyddogion yn cynorthwyo ymarferwyr i roi cynlluniau datblygu unigol ar waith yn briodol. Mae swyddogion wedi sefydlu prosesau buddiol i ddatrys anghytundebau. Maent yn gweithio'n rhagweithiol gyda rhieni a gofalwyr, yn cynnwys trwy gyfryngu a gomisiynir lle bo'n berthnasol, gan sicrhau'r lleoliad neu'r cymorth mwyaf priodol i ddiwallu anghenion eu plentyn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar leihau nifer yr achosion sy'n arwain at dribiwnlys.

Mae arweinwyr yn y timau cynhwysiant wedi datblygu a gweithredu platfformau electronig defnyddiol sy'n cefnogi nodi plant a phobl ifanc ag ADY, a'r ddarpariaeth ar eu cyfer. Mae gwybodaeth werthfawr am ddysgwyr ag ADY, a darpariaeth i'w cynorthwyo, ar gael i randdeiliaid perthnasol trwy'r platfformau diogel hyn. Defnyddir y platfformau hyn, er enghraifft, i ddatblygu ac adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY ac i gefnogi prosesau atgyfeirio. Mae'r platfformau effeithiol hyn yn cefnogi prosesau statudol yn dda ac yn galluogi darparwyr i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn gyson.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu ystod eang o gyngor, cymorth ac arweiniad buddiol am ADY i ysgolion a lleoliadau. Mae'r cymorth hwn yn canolbwyntio'n dda ar feysydd fel datblygu proffiliau un dudalen pwrpasol, cynlluniau datblygu unigol ac addasu dulliau addysgu a dysgu i gynorthwyo dysgwyr ag ADY. Mae arweinwyr wedi datblygu set ddefnyddiol o egwyddorion ADY, pecynnau cymorth a phlatfformau digidol sy'n cynorthwyo ysgolion a lleoliadau i reoli gweithredu diwygio ADY yn dda. O ganlyniad, mae arweinwyr a Chydlynwyr ADY mewn ysgolion yn dangos amgyffrediad cadarn o'u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf a'r Cod ADY ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Mae swyddogion yn y timau ADY a chynhwysiant yn cyfathrebu'n rheolaidd ag ysgolion a lleoliadau. Maent yn creu arweiniad a llwybrau clir, ac yn darparu cymorth a chyngor buddiol trwy gylchlythyrau pwrpasol, cyfarfodydd a llinellau cymorth gwerthfawr. O ganlyniad, mae uwch arweinwyr a staff mewn ysgolion a lleoliadau yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda gan swyddogion yr awdurdod lleol.

Mae'r gwasanaeth blynyddoedd cynnar yn darparu cymorth, arweiniad a phrosesau buddiol i gefnogi plant a staff mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion. Mae swyddogion yn cynorthwyo arweinwyr cynhwysiant ym mhob lleoliad yn dda, er enghraifft trwy gefnogi prosesau atgyfeirio a chyflwyno rhaglen dysgu proffesiynol werthfawr sydd wedi'i theilwra at weithio gyda phlant ifanc. Mae hyn yn cynorthwyo'r awdurdod lleol yn effeithiol i nodi anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu trefniadau pontio buddiol i gefnogi disgyblion ag ADY yng nghamau nesaf eu haddysg. Mae swyddogion wedi rhoi protocol pontio ôl-16 defnyddiol ar waith i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu nodi a'u cefnogi i bontio'n llwyddiannus i leoliadau ôl-16.

Mae’r awdurdod lleol yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr ar gyfer ysgolion a’r UCD. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, hyfforddiant byr defnyddiol ar-lein, cefnogi rhwydweithiau rhanddeiliaid a hwyluso rhannu arfer effeithiol mewn digwyddiadau arddangos. Mae gweithio mewn clystyrau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd wedi hen ennill ei phlwyf ac yn cyfrannu’n sylweddol at ddull cyson o ran gweithredu blaenoriaethau cytûn yr awdurdod lleol ar gyfer ADY. Mae’r timau ADY a chynhwysiant yn ymatebol i anghenion lleoliadau, ysgolion a’r UCD, ac yn darparu cymorth a dysgu proffesiynol pwrpasol i fodloni eu gofynion penodol.

Mae’r awdurdod lleol yn sicrhau bod ei dîm ADY a chynhwysiant yn gallu cyflwyno’r rhan fwyaf o’i gyngor, ei arweiniad a’i ddysgu proffesiynol trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae arweinwyr wedi nodi bod angen ymestyn y ddarpariaeth a’r adnoddau cyfrwng Cymraeg i gynorthwyo dysgwyr ag ADY yn deg.

Dros gyfnod, mae arweinwyr wedi datblygu ystod o wasanaethau gwerthfawr a darpariaethau arbenigol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY mwy cymhleth. Mae swyddogion yn y timau ADY a chynhwysiant yn hyrwyddo cydweithio ymhlith ysgolion i’w cynorthwyo i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r awdurdod lleol yn gwneud defnydd effeithiol o ysgolion arbennig i ddatblygu strategaethau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd a dosbarthiadau arbenigol yr awdurdod lleol. Yn sgil cynnydd yn y galw am ddarpariaeth arbenigol, mae arweinwyr yn cydnabod bod angen ehangu’r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer plant a phobl ifanc y mae eu hanghenion a nodwyd yn fwy cymhleth.

**Ciplun: Comisiynu ysgol arbennig i ddarparu gwasanaeth allymestyn i ysgolion prif ffrwd i gefnogi disgyblion awtistig**

Mae’r awdurdod lleol yn comisiynu’r staff arbenigol yn Ysgol Bryn Derw i ddarparu ystod helaeth o gymorth arbenigol o ansawdd uchel i ysgolion prif ffrwd, gan gynnwys canolfannau adnoddau dysgu (CAD). Mae arweinwyr mewn ysgolion yn gadarnhaol iawn am y cymorth gwerthfawr hwn o ran meithrin gallu ysgolion prif ffrwd i gefnogi disgyblion awtistig yn dda. Mae’r ystod helaeth, o ansawdd uchel o gymorth allymestyn yn gwneud cyfraniad pwysig o ran gwella’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion awtistig ar draws Casnewydd. Mae’r cymorth hwn ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, hefyd. Caiff y gwasanaeth hwn effaith gadarnhaol o ran gwella’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion awtistig mewn ysgolion prif ffrwd a dosbarthiadau arbenigol ar draws y ddinas.

Mae swyddogion yn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth yn dda, gan ddefnyddio’u gwybodaeth uniongyrchol a data i nodi ysgolion a lleoliadau unigol sydd angen cefnogaeth a her o ran ADY a chynhwysiant. Maent yn fyfyriol ac yn mynd i’r afael yn fedrus â meysydd i’w gwella.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi dysgu a lles dysgwyr ethnig lleiafrifol a dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel eu hiaith gyntaf?**

Mae ychydig dros draean o ddisgyblion yn ysgolion Casnewydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, ac nid yw chwarter o'r disgyblion yn siarad Cymraeg na Saesneg fel eu hiaith gyntaf.

Mae Gwasanaeth Addysg Amlieithog Gwent (GEMS) yn wasanaeth rhanbarthol hirsefydledig a gynhelir gan Gasnewydd, sy'n uchel ei barch gan ysgolion. Caiff athrawon a staff cymorth dwyieithog eu pennu'n sensitif i ysgolion. Mae'r gwasanaeth wedi addasu'n dda i'r newid yn y boblogaeth, ar y cyfan, ac felly anghenion disgyblion ac ysgolion dros y blynyddoedd. Mae GEMS yn cynnig cymorth cyffredinol a theilwredig buddiol i feithrin gallu staff ysgolion. Pan fo'n briodol, mae staff GEMS wedi cefnogi ysgolion sydd wedi datblygu eu darpariaeth Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) eu hunain, yn cynnwys penodiadau staff dwyieithog. Yn ychwanegol, mae dwy o ysgolion cynradd Casnewydd wedi'u comisiynu gan y Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion i ddarparu dysgu proffesiynol a chyngor gwerthfawr iawn i ysgolion o fewn yr awdurdod a'r rhanbarth.

Caiff medrau caffael Saesneg plant eu hasesu'n briodol, ac fe gaiff eu cynnydd ei fonitro'n agos gan GEMS a'i rannu ag ysgolion. Mae gan yr awdurdod lleol drosolwg eang o'r cynnydd a wna disgyblion SIY, ac mae'n nodi bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd yn unol â disgwyliadau, ac mae ychydig iawn o ddisgyblion yn gwneud cynnydd uwchlaw disgwyliadau.

O'r ysgolion rydym wedi'u harolygu er mis Chwefror 2022, amlygwyd bod gwaith ychydig ohonynt yn gysylltiedig â disgyblion ethnig lleiafrifol, neu ddisgyblion SIY, yn hynod effeithiol. Roedd y cryfderau a nodwyd gennym yn cwmpasu arweinyddiaeth, y cwricwlwm, dysgu proffesiynol a datblygu disgyblion fel cyfieithwyr ifanc.

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i ddatblygu polisïau cynhwysol a hyrwyddo arferion mewn ysgolion sy'n cofleidio anghenion pob un o'r disgyblion. Er enghraifft, comisiynodd yr awdurdod lleol adroddiad rhanbarthol ar hiliaeth ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Amlygodd yr adroddiad hwn fod "hiliaeth yn amlwg…ac ni adroddir amdano ddigon mewn ysgolion". Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu cynllun gweithredu addas i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad. Mae'r awdurdod lleol wedi sicrhau ymrwymiad pob un o'r penaethiaid y bydd eu cynlluniau datblygu ysgol yn cynnwys blaenoriaethau priodol yn gysylltiedig â gwrth-hiliaeth, er mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y gwaith hwn. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu pecyn cymorth defnyddiol iawn ar gyfer ei ysgolion yn ddiweddar i werthuso'i ddarpariaeth ar gyfer disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae gan yr awdurdod lleol drefniadau clir ar waith i gefnogi plant sy'n geiswyr lloches ar eu pen eu hunain. Mae hyn yn cynnwys trefnu bod profiadau addysgol priodol ar gael iddynt.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn darparu cefnogaeth a her werthfawr i ysgolion am bresenoldeb a gwaharddiadau disgyblion. Ar sail y wybodaeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion ethnig lleiafrifol wedi gwella

dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae eu cyfraddau presenoldeb yn cyd-fynd yn fras â phresenoldeb yr holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd, ac mae ychydig yn well na phresenoldeb ar gyfer yr holl ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn o fewn cyd-destun cyfraddau presenoldeb ar gyfer yr holl ddisgyblion nad ydynt wedi adfer yn llawn ers y pandemig. Mae data'r awdurdod lleol yn dangos nad yw disgyblion ethnig lleiafrifol yn cael eu cynrychioli'n anghymesur mewn gwaharddiadau. Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn hynod lwyddiannus yn gweithio gyda phenaethiaid i leihau'r defnydd o waharddiadau o dros bum niwrnod ar gyfer unrhyw ddisgybl, a'r gyfradd ar gyfer y gwaharddiadau hyn yng Nghasnewydd yw'r isaf yng Nghymru.

Mae adroddiad monitro a gwerthuso diweddaraf yr awdurdod lleol ar fwlio mewn ysgolion yn rhoi trosolwg defnyddiol o'r cymorth a gynigir i ysgolion. Yn ychwanegol, mae'r adroddiad yn nodi y gallai mwyafrif yr achosion bwlio a adroddir gan ysgolion gynnwys agweddau ar hil, crefydd neu gred. Dywed ychydig dros draean o ysgolion na fu unrhyw achosion o fwlio yn y flwyddyn ysgol ddiwethaf, ac mae swyddogion wedi herio arweinwyr yr ysgolion hyn am y modd y maent yn cofnodi ac yn adrodd am fwlio. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen gweithio ymhellach gydag ysgolion i wella'u dealltwriaeth, cofnodi ac adrodd o ran achosion o fwlio ac achosion hiliol.

Nid yw aelodau etholedig wedi craffu ar effaith gwasanaethau ar gyfer dysgwyr ethnig lleiafrifol na disgyblion SIY yn ddiweddar. O ganlyniad, nid ydynt mor ymwybodol ag y mae angen iddynt fod o ran pennu blaenoriaethau addysgol yn yr agwedd bwysig hon ar waith yr awdurdod lleol, ei ysgolion a'i bartneriaid.

### Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac yn gwella safonau addysgu Cymraeg?

Mae gan uwch arweinwyr a swyddogion yr awdurdod lleol weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn rhagweithiol i'r holl randdeiliaid a phartneriaid, yn cynnwys aelodau craffu. Mae gan yr awdurdod lleol gyfeiriad strategol ar gyfer y dyfodol a gyflwynir yn glir yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Mae swyddogion yn nodi ardaloedd o'r ddinas i hyrwyddo a sefydlu addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a'u teuluoedd o fewn eu hardal ymhellach. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r Rhaglen Gyfalaf Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn dda i'w helpu i gyflawni ei weledigaeth. Yn unol â thargedau uchelgeisiol y CSCA, mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar i ysgolion uwchradd wedi cael ei datblygu'n effeithiol.

Mae'r Fforwm Addysg Gymraeg, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Addysg, yn goruchwylio prosesau'r awdurdod lleol ar gyfer monitro a gwerthuso gweithredu ei CSCA. Mae'r Fforwm Addysg Gymraeg yn darparu fforwm sy'n hyrwyddo diwylliant cryf o berchnogaeth ac atebolrwydd am gyflawni deilliannau'r CSCA ymhlith rhanddeiliaid. Ceir targedau tymor byr a thymor canolig priodol i gyflawni gweledigaeth uchelgeisiol y CSCA.

Mae'r awdurdod lleol, trwy ei brosesau derbyn i ysgolion, yn rhannu gwybodaeth fuddiol i gefnogi rhieni i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch cyfrwng iaith addysg eu plentyn. Mae swyddogion yn ymgysylltu â theuluoedd ar draws y ddinas i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, er enghraifft trwy i gynrychiolydd o'r awdurdod

lleol fynychu nifer o ddigwyddiadau cymunedol i fynd ati i hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog ac yn amlieithog, er enghraifft trwy ymgyrch 'Bod yn Ddwyieithog'.

Caiff y ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg a sefydlwyd yn ddiweddar ei dathlu trwy glip digidol buddiol sy'n rhoi gwybod i rieni am y cyfle i symud eu plentyn i addysg cyfrwng Cymraeg ar bwynt mynediad diweddarach yn ei fywyd ysgol statudol. Yn gyffredinol, mae prosesau pontio yn gryf, ac yn cynorthwyo disgyblion i ddilyn eu haddysg yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid bob amser yn llwyddo i annog plant i bontio o leoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg i addysg statudol cyfrwng Cymraeg.

Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu'r GCA i gynnig ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol i gefnogi arweinwyr a staff mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae staff yn elwa ar y cymorth hwn i ddatblygu eu haddysgeg a'u methodoleg ymhellach, sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau Cymraeg. Yn yr arfer orau mewn lleiafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg, mae arweinwyr yn eirioli pwysigrwydd a manteision y Gymraeg a'i diwylliant yn eu hysgolion, gan feithrin ymdeimlad cryf o berthyn sydd, yn ei dro, yn annog staff a disgyblion i ymgysylltu a gwneud cynnydd mewn datblygu eu medrau Cymraeg. Mae'r ysgolion hyn yn manteisio ar gymorth gan y GCA i gryfhau eu gwaith ymhellach, ac yn elwa ar y cymorth. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg, mae llai o bwyslais ar ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Mae'r awdurdod yn cydnabod bod hwn yn faes i'w wella, a megis dechrau y mae cynlluniau i fynd i'r afael â hyn.

Yn gyffredinol, mae ysgolion yn cymryd rhan yn effeithiol ym mentrau'r Siarter Iaith a Cymraeg Campus i hyrwyddo ethos a diwylliant Cymreig. Mae hyn yn cynorthwyo staff a disgyblion i gymryd rhan mewn cyfleoedd a gweithgareddau i ddefnyddio a dathlu'r Gymraeg. Mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo ac yn sicrhau partneriaethau effeithiol gydag ystod o sefydliadau a mentrau lleol a chenedlaethol, er enghraifft Yr Urdd a Menter Iaith Casnewydd. Trwy'r gweithgareddau gwerthfawr hyn yn y ddinas, fel Bwyd a Hwyl a Gŵyl Newydd, rhoddir cyfleoedd buddiol i blant a phobl ifanc siarad a defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun anffurfiol. Mae hyn yn mynd ati i gefnogi'r weledigaeth uchelgeisiol i normaleiddio'r Gymraeg yn yr holl gymunedau amlddiwylliannol ac amlieithog ar draws y ddinas.

### Arwain a gwella

Mae gan aelodau etholedig ac arweinwyr corfforaethol yng Nghasnewydd ddyheadau uchel ar gyfer plant a phobl ifanc yn y ddinas. Mae eu huchelgais i gynnig y dechrau gorau mewn bywyd trwy'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol yn ganolog i'w hagenda wella. O ganlyniad, rhoddir blaenoriaeth ganolog i addysg yn y cynllun corfforaethol. Mae'r cynllun corfforaethol a'r cynllun cydraddoldeb strategol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae lliniaru effaith tlodi hefyd yn flaenoriaeth drawsbynciol ar gyfer gwasanaethau addysg.

Er mwyn cefnogi ysgolion a lleoliadau'n well i gyflawni uchelgais y Cyngor, mae'r arweinydd a benodwyd yn ddiweddar a'i gydweithwyr yn y Cabinet wedi gwneud ymrwymiad cryf i flaenoriaethu addysg. Maent yn cydbwyso'n ofalus ofynion ar draws

portffolios eraill, yr heriau yn sgil twf yn y boblogaeth a'r pwysau ariannol ar gyllideb yr awdurdod lleol.

Caiff aelodau etholedig ar y pwyllgor trosolwg a chraffu 'Pobl a Pherfformiad' gyfleoedd addas i ystyried adroddiadau lefel uchel am waith y gwasanaeth addysg. Mae'r pwyllgor hwn yn goruchwylio dau faes gwasanaeth arwyddocaol a phwysig, felly mae'r flaenraglen waith yn cwmpasu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ogystal â gwasanaethau addysg. O ganlyniad, mae cyfleoedd agenda i faterion addysg yn gyfyngedig ar draws y flaenraglen waith. Mae aelodau o'r pwyllgor yn dangos diddordeb yn yr adroddiadau a gyflwynir, yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn aml yn gwneud ceisiadau am fwy o wybodaeth. Mae'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar, sydd hefyd yn ddirprwy arweinydd y Cabinet, yn cael gwahoddiad rheolaidd i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor. Mae ei hamgyffrediad cryf o wasanaethau addysg yn amlwg pan fydd hi'n cyflwyno adroddiadau neu'n ymateb i ymholiadau a godwyd gan aelodau.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Strategol yn cefnogi gwelliant yn fuddiol yn y gwasanaeth addysg, yn cynnwys trwy 'sesiynau her ac adolygu' bob chwe mis. Yn y sesiynau hyn, maen nhw, ynghyd ag aelodau eraill o'r tîm rheoli corfforaethol, yn trafod cynnydd yn erbyn blaenoriaethau addysg a nodwyd, yn ystyried risgiau ac yn gweithio gydag arweinwyr addysg i fireinio camau gweithredu.

Mae'r Prif Swyddog Addysg yn arwain y gwasanaeth addysg yn ddiwyd ac yn fedrus. Mae aelodau o'r tîm addysg, penaethiaid a rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi'r ymroddiad personol a'r gefnogaeth a gynigir ganddi yn fawr. Mae'r Prif Swyddog Addysg yn modelu ymddygiadau proffesiynol a dulliau yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn dda. O ganlyniad, mae perthnasoedd o fewn y gwasanaeth addysg a gyda phartneriaid allweddol fel penaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethol yn hynod gadarnhaol, fel y maent gyda rhanddeiliaid eraill. O ganlyniad i'r perthnasoedd cryf ac ymddiriedus hyn, mae swyddogion yn yr awdurdod lleol yn adnabod eu harweinwyr ysgolion ac yn gwybod yn dda iawn am yr heriau y maent yn eu hwynebu. Mae pa mor dda y mae swyddogion, a'r Prif Swyddog Addysg yn benodol, yn ystyried ac yn cefnogi lles penaethiaid, yn gryfder nodedig.

Mae aelodau etholedig, uwch arweinwyr ac arweinwyr timau yn deall ystod yr heriau sy'n wynebu dysgwyr difreintiedig a'r effaith y gall tlodi ei chael ar ddeilliannau addysg. Mae'r strategaeth gwrthdlodi bresennol yn canolbwyntio ar ystod eang o ddarpariaethau defnyddiol ar lefelau cyffredinol, targedig a phwrpasol, er nad yw meini prawf llwyddiant, targedau a graddfeydd amser penodol yn aml yn cyd-fynd â chamau gweithredu. Mae swyddogion wedi myfyrio ar y strategaeth bresennol ac wrthi'n ei diweddaru i finiogi'r ffocws ar feysydd pwysig i gefnogi effaith fwy. Er enghraifft, maent wedi newid eu hymagwedd at Ysgolion Bro ac yn cydnabod bod y cynnig cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd yn ffactor allweddol y mae angen ei ddatblygu.

Mae partneriaethau â gwasanaethau rhanbarthol fel y GCA a GEMS yn adeiladol, ac mae lles pennaf plant a phobl ifanc yn ganolog i'w gwaith. Trwy'r partneriaethau hyn, gall yr awdurdod lleol fanteisio ar dystiolaeth fuddiol sy'n cynnig gwybodaeth fanylach am ei ysgolion trwy'r adroddiadau thematig sy'n cael eu darparu gan y GCA, er enghraifft. Mae uwch swyddogion yn herio gwasanaethau rhanbarthol yn briodol i

sicrhau bod yr adroddiadau hyn yn mynd i'r afael ag agweddau penodol ar waith yn ysgolion a lleoliadau Casnewydd.

Fe wnaeth yr awdurdod lleol gynllunio'n ofalus i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf yn 2018. O ganlyniad, cryfhawyd gwaith ar bob maes a gwmpaswyd gan yr argymhellion hyn ers hynny. Mae agweddau ar y rhain yn parhau yn briodol fel blaenoriaethau parhaus ar gyfer y gwasanaeth. O ganlyniad i'w waith â ffocws ar ei flaenoriaethau ei hun yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r awdurdod lleol yn gwneud cynnydd mewn meysydd pwysig, fel gwella presenoldeb ysgolion a lleihau'r defnydd o waharddiadau.

Mae uwch arweinwyr wedi parhau i fireinio prosesau yn fuddiol i werthuso'r gwasanaeth addysg a chynllunio ar gyfer gwelliant. Maent wedi datblygu pecyn cymorth defnyddiol o weithgareddau gwerthuso. Er enghraifft, mae arweinwyr yn defnyddio'r dull 'adolygu cyflym' ar gyfer materion sy'n dod i'r amlwg ac yn casglu adborth buddiol gan grwpiau strategol, megis Ffowrm i benaethiaid Casnewydd sy'n benodol i sector i lywio'u dadansoddiad. Mae gweithgareddau'r pecyn cymorth yn cynorthwyo swyddogion i goladu gwybodaeth am agweddau penodol ar waith timau, a nodi cryfderau a meysydd i'w gwella eang i lywio'u gwerthusiadau tîm cyffredinol. Yn ychwanegol, mae cyfleoedd rheolaidd ar y calendr i arweinwyr timau gyflwyno adroddiadau monitro a gwerthuso i'r uwch dîm i hysbysu'n dda am weithgarwch y tîm a'u cynorthwyo wrth flaenoriaethu adnoddau a chamau gweithredu.

Mae arweiniad gwasanaeth buddiol yn cynnig fframwaith defnyddiol ar gyfer 'cynlluniau tîm ar dudalen'. Mae swyddogion yn cynllunio'n briodol ar gyfer gwelliant, yn amlinellu eu blaenoriaethau allweddol ac yn cynnwys meini prawf llwyddiant eang. Ceir llinellau amser amlinellol, a gwneir cysylltiadau clir â'r amcanion lles yn y cynllun corfforaethol. Mae'r fformat cyson yn galluogi uwch arweinwyr ac arweinwyr timau i fonitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu arfaethedig yn hawdd. Mewn ychydig o achosion, mae swyddogion yn gwerthuso'n fanwl gywir effaith gwaith eu timau yn erbyn meini prawf llwyddiant penodol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae meini prawf llwyddiant yn rhy eang neu'n ymwneud â chwblhau camau gweithredu yn hytrach na dangosyddion effaith perthnasol. At ei gilydd, mae gwerthusiad swyddogion o effaith yn rhy amrywiol.

Mae adroddiadau monitro, gwerthuso ac adolygu'r awdurdod yn cynnwys ffocws ar werth am arian. Mae'r awdurdod wedi rhoi arweiniad clir i swyddogion sy'n drafftio'r adroddiadau hynny. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau bob amser yn dangos dealltwriaeth o'r arweiniad ynghylch yr adran gwerth am arian ac mae swyddogion yn cydnabod bod angen cryfhau ansawdd yr adran hon o adroddiadau.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio dulliau amrywiol i wrando ar lais plant a phobl ifanc a sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau strategol. Er enghraifft, cofnododd yr awdurdod lleol farn dros 1000 o bobl ifanc trwy arolwg ar-lein y bu'n rhaid iddynt ei lenwi i ddefnyddio'r Wi-Fi rhad ac am ddim ar fysiau Casnewydd. Mae'r Cyngor Ieuenctid, y grwpiau cyfranogiad disgyblion, a'r Uwch-Gyngor yn darparu cyfleoedd addas i ddysgwyr gael eu clywed. Cafodd y Cyngor Ieuenctid ei gynnwys mewn datblygu arweiniad defnyddiol ar gyfer ysgolion ar faterion LHDTC+, a gyflwynodd pobl ifanc i benaethiaid. Datblygwyd yr Uwch-Gyngor ar gyfer plant oedran cynradd yn ddiweddar, ac mae swyddogion yn gweithio i ymestyn cynrychiolaeth gwahanol grwpiau o blant yn rhan o'r gwaith hwn.

At ei gilydd, mae swyddogion ar draws y gwasanaeth yn elwa ar y gefnogaeth a'r her a gânt drwy drefniadau rheoli perfformiad a rheolaeth llinell. Mae'r gwasanaeth addysg wedi diwygio'r prosesau rheoli perfformiad corfforaethol i gyd-fynd yn well â'r flwyddyn academaidd a chysylltu â phrosesau'r ysgol. Mae arweinwyr addysg yn blaenoriaethu dysgu proffesiynol ar gyfer eu staff, gan roi cyfle iddynt elwa ar ystod a ystyriwyd yn ofalus o gyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys rhaglenni datblygu arweinyddiaeth sy'n cefnogi cynllunio olyniaeth, gweithgareddau i ddatblygu medrau Cymraeg swyddogion a briffiau rheolaidd ar flaenoriaethau cenedlaethol.

Mae'r gwasanaeth addysg yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf sy'n cefnogi lles dysgwyr yn ei ysgolion, ei UCD a'i ddarparwyr eraill. Trwy ystod o arweiniad, polisïau a gweithdrefnau buddiol, ynghyd â hyfforddiant perthnasol a chyfoes mewn diogelu ac amddiffyn plant, mae swyddogion yn cefnogi ysgolion a darparwyr addysg eraill i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu'n dda.

Mae'r tîm diogelu addysg yn rhoi cyngor a chymorth defnyddiol i ysgolion a lleoliadau addysg eraill ar draws Casnewydd, gan weithio'n agos gyda'u Hunigolion Dynodedig ar gyfer Diogelu. Mae'r awdurdod lleol yn trefnu cyfleoedd rheolaidd i Unigolion Dynodedig ar gyfer Diogelu gyfarfod i drafod pryderon ynghylch diogelu a chael diweddariadau a hyfforddiant buddiol ar faterion pwysig. Mae hunanwerthusiadau diogelu ysgolion yn darparu gwybodaeth fuddiol i gefnogi deialog rhwng y tîm diogelu addysg ac uwch arweinwyr ysgolion ar effeithiolrwydd gweithdrefnau diogelu. Yn ychwanegol, mae'r tîm diogelu addysg yn cynnal ymweliadau sicrhau ansawdd rheolaidd ac ymweliadau samplu ar hap ag ysgolion i sicrhau eu bod yn briodol o fyfyriol am eu harfer, a nodi'r camau nesaf ar gyfer gweithredu. Caiff y gwaith hwn effaith gadarnhaol ar gryfhau'r diwylliant diogelu ar draws ysgolion a lleoliadau Casnewydd.

Mae nodwedd gref ar waith y tîm diogelu addysg yn ymwneud â 'diogelu cyd-destunol', sy'n cynnwys nodi plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gamfanteisio yn gynnar, a darparu cymorth amlasiantaethol ar eu cyfer. Mae'r tîm yn cydlynu ac yn cyfranogi rhan mewn ystod o gyfarfodydd amlasiantaethol pwrpasol, ac mae gan bob un ohonynt faes ffocws penodol, sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol gan swyddogion i rannu gwybodaeth a chydlynu camau gweithredu amserol i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae gan yr awdurdod lleol brosesau priodol ar waith i sicrhau recriwtio diogel o fewn y gwasanaeth addysg, ac mae'n gwirio bod arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion yn cyflawni eu cyfrifoldebau wrth recriwtio staff, hefyd. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal cofnod priodol ar gyfer gwirio addasrwydd staff a phobl eraill sydd mewn cysylltiad â phlant.

Ar lefel gorfforaethol, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu rôl 'hyrwyddwyr diogelu' ar gyfer pob gwasanaeth, gyda'r nod o sicrhau bod egwyddorion sylfaenol diogelu yn parhau i fod yn ffocws rheolaidd yn eu cyfarfodydd gwasanaeth. Mae'r 'hyrwyddwyr diogelu' yn darparu cymorth ac arweiniad buddiol i staff am faterion diogelu, ac yn bobl gyswllt ar gyfer staff sydd ag unrhyw bryder. Ar lefel weithredol, mae'r awdurdod yn arwain hyb diogelu amlasiantaethol, gyda nod i wella gwaith partneriaeth agosach ac atebolrwydd clir o fewn asiantaethau allweddol. Mae'r hyb hwn yn darparu ymatebion cyflym, cydlynus a chyson i bryderon ynghylch diogelu. Hwn yw'r 'drws

ffrynt' diogelu ar gyfer gwasanaethau plant, gydag adnoddau neilltuedig gan Heddlu Gwent, gwasanaethau plant yr awdurdod, staff addysg arbenigol, gwasanaeth atal, y gwasanaeth prawf a'r tîm trais domestig, er enghraifft.

Er bod y gweithdrefnau diogelu o fewn y gwasanaeth addysg yn gadarn, amlygodd adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru nifer o argymhellion yn gysylltiedig â materion diogelu corfforaethol. Mae'r rhain yn cynnwys cryfhau'r polisi recriwtio mwy diogel, agweddau ar hyfforddiant diogelu, cadw cofnodion hyfforddiant ac adrodd am ddiogelu corfforaethol i aelodau etholedig. Yn ychwanegol, amlygodd arolygiad gwasanaethau gwaith ieuenctid diweddar fod bwlch mewn hyfforddiant ar gyfer gweithwyr ieuenctid. Mae'r awdurdod eisoes yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Sefydlwyd Bwrdd Diogelu Corfforaethol newydd, gyda chynrychiolaeth ar draws gwasanaethau'r awdurdod, i oruchwylio gwaith diogelu a chefnogi gwelliant yr awdurdod.

Yn unol â'i flaenoriaeth gorfforaethol, mae'r awdurdod wedi darparu cyllid mewn cyllidebau diweddar ar gyfer gwasanaethau addysg canolog ac ysgolion, gan ddod â'i lefelau cyllid yn agosach at gyfartaledd Cymru. Er 2022-2023, mae'r awdurdod wedi cynyddu ei gyfradd dirprwyo i ysgolion, er bod gwariant wedi'i gyllidebu'r awdurdod ar gyfer ysgolion fesul disgybl yn parhau i fod islaw cymedr Cymru. Mae aelodau'r Cabinet yn derbyn adroddiadau monitro cyllideb sy'n amlygu pwysau cyllidebol ar draws addysg ac ysgolion trwy gydol y flwyddyn, ond er gwaethaf ei gylch gwaith, nid yw'r pwyllgor craffu perthnasol yn derbyn adroddiadau monitro cyllideb.

Mae'r awdurdod lleol wedi neilltuo £110m o gyllid, y mae 65% ohono yn gyfraniad gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer cam nesaf ei rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y bydd yn ei chyflwyno dros y degawd nesaf. Mae hyn yn dangos bod blaenoriaeth sylweddol yn cael ei rhoi i addysg yn y rhaglen gyfalaf ac yn canolbwyntio'n helaeth ar sicrhau digon o leoedd mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg, fel ei gilydd.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r awdurdod lleol wedi ailddechrau cynnal arolygon o gyflwr ysgolion i ddiweddaru ei ddealltwriaeth o lefel yr ôl-groniad mewn gwaith cynnal a chadw ar draws ei ystâd ysgolion. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y risg yn gysylltiedig â graddfa'r ôl-groniad mewn gwaith cynnal a chadw.

Mae'r awdurdod lleol yn nodi ei bwysau cyllidebol allweddol mewn addysg yn effeithiol. Mewn llawer o achosion, mae'r rhain yn adlewyrchu gweithredu ei ddulliau strategol, fel datblygu darpariaeth leol i leihau lleoliadau drud y tu allan i'r sir. Yn y flwyddyn ariannol bresennol, nododd yr awdurdod lleol orwariant annisgwyl yn ymwneud â chludiant i blant a phobl ifanc ag ADY, a chludiant i ysgolion arbennig. Mae wedi cymryd camau addas i fynd i'r afael â'r rhain.

**Ciplun: Cefnogi ysgolion i reoli eu cyllid yn effeithiol**

Mae'r tîm cyllid addysg yn gweithio mewn ffordd strwythuredig gyda'r holl ysgolion cynradd a rhai ysgolion uwchradd i gefnogi datblygu a rheoli eu cyllidebau fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth. Mae gwaith y tîm hwn yn gryf, ac mae arweinwyr ysgolion yn gwerthfawrogi'r her a'r gefnogaeth effeithiol a pharhaus a gynigir iddynt ynghylch gwargedau uchel a diffygion posibl. Mae'r tîm yn defnyddio data cymharol

yn ei waith gydag ysgolion i'w helpu i reoli eu sefyllfaoedd ariannol, ac yn elwa ar wybodaeth a phrofiad gwerthfawr ar draws y gwasanaeth addysg, lle bo'n berthnasol, ac yn ehangach ar draws yr awdurdod, gan gynnwys cydweithwyr adnoddau dynol.

Mae'r tîm cyllid addysg yn gweithio'n ddwys gydag ysgolion i fynd i'r afael â diffyg posibl mewn cyllidebau. Pan mae ysgolion yn gwneud cais am ddiffyg trwyddedig, caiff hyn ond ei awdurdodi os yw swyddogion yn asesu bod y cynllun i adfer y diffyg cysylltiedig yn briodol a chyflawnadwy. I'r ysgolion hyn, mae'r awdurdod lleol yn gofyn i'r corff llywodraethol llawn fynychu sesiwn hyfforddi gyda swyddogion i amlinellu goblygiadau bod mewn diffyg. Mae swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd ag ysgolion i fonitro cynnydd yn erbyn cynlluniau adfer diffyg. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, roedd gan bum ysgol ddiffyg, a dim ond un ysgol oedd yn methu gosod cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Mae'r buddsoddiad yng ngallu'r tîm cyllid addysg a gwaith diwyd swyddogion yn golygu bod hwn yn ddarlun mwy cadarnhaol na'r darlun a oedd yn bodoli ychydig flynyddoedd yn ôl.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnig ystod o gytundebau lefel gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau buddiol i ysgolion, ac mae'n adolygu'r rhain yn rheolaidd ar y cyd ag arweinwyr ysgolion. Mae swyddogion wedi gwneud newidiadau i'r cytundebau hyn gan ystyried adborth, ac mae nifer dda yn manteisio arnynt ar draws ysgolion.

Trwy'r fforwm cyllideb, mae swyddogion ac arweinwyr ysgolion yn cydweithio'n effeithiol ar faterion cyllid allweddol, yn cynnwys datblygiad ac effaith cyllideb y gwasanaeth addysg, sy'n helpu ysgolion i gynllunio'u cyllidebau. Er nad yw'r awdurdod lleol wedi cynnal adolygiad llawn o'i fformiwla cyllid yn y blynyddoedd diwethaf, mae ganddo raglen adolygu dreigl o agweddau ar y fformiwla trwy'r fforwm cyllideb, yn cynnwys adolygiadau diweddar yn ymwneud â ffioedd arholiadau a'r fformiwla ADY. Mae arweinwyr ysgolion yn teimlo bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi mewn trafodaethau cyllidebol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, yn seiliedig ar hunanwerthusiad yr awdurdod, cynlluniau strategol a data perthnasol a ddelir gan Estyn
- yn dadansoddi'r canlyniadau o holiaduron agored, yn cynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag ystod o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinydd y Cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, yn cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, yn cynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor neu'r pwyllgor craffu, gwybodaeth yn ymwneud â diogelu dysgwyr, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a ddelir gan Estyn

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- yn darparu copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol i nodi unrhyw bryderon â chywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau ble mae angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/12/2024